
WNO WELSH NATIONAL **OPERA** CENEDLAETHOL CYMRU

Opera gan Wolfgang Amadeus Mozart yw ***The Magic Flute*** ac mi berfformiwyd am y tro cyntaf yn 1791. Mae'n stori dylwyth teg gyda themâu megis y da yn erbyn y drwg, serch a chyfeillgarwch, golau a thywyllwch, a hyd heddiw mae'n un o'r operâu sy'n cael ei pherfformio amlaf. I ddysgu mwy am y stori, gwyliwch **Chwarae Opera** a defnyddiwch ein hadnoddau i greu propiau eich hun ar thema *The Magic Flute* yn eich cartref.



**wno.org.uk/playopera**



# Baner adar a gloÿnnod byw!

Lliwiwch yr adar a'r gloÿnnod byw a'u cysylltu i ddarn o linyn hir i wneud eich baner eich hun, a'i hongian ar eich wal neu yn eich ffenestr i godi calon y rhai sy'n mynd heibio. Siglwch y llinyn i'w gweld nhw'n dawnsio, fel mae'r anifeiliaid yn ei wneud pan mae'r Tywysog Tamino yn chwarae alaw iddynt ar ei ffliwt hud.

## Byddwch angen:

- Argraffydd a phapur argraffu
- Glud
- Pinnau ffelt, pensiliau a/neu baent
- Darnau o bapur lliwgar, secwins a gliter
- Siswrn
- Llinyn, gwlân neu ruban
- Tâp selo



**Argraffwch y ffeiliau PDF ar gyfer yr adar a'r gloÿnnod byw.** Dylech weld dwy ffeil PDF gyda phatrymau lliwio gwahanol ar gyfer yr adar, a dwy ffeil PDF ar gyfer y gloÿnnod byw, un wedi'i lliwio, ac un i chi ei haddurno.

**Gludwch yr stensiliau i ddarn o cerdyn tenau.** Efallai gallech ddefnyddio pecyn grawnfwyd gwag? Gofynnwch i oedolyn eich helpu.

**Pan fydd y glud yn sych, addurnwch y gloÿnnod byw gweigion, defnyddiwch binnau neu baent neu defnyddiwch y glud eto a gorchuddiwch nhw â darnau bach o bapur lliwgar, secwins a gliter.**


**Yna, torrwch o amgylch y llinellau dot yn ofalus.**


**Ar ôl torri o amgylch yr adar a'r gloÿnnod byw, gosodwch nhw ar fwrdd yn y drefn yr hoffech eu harddangos nhw.**

**Yna, trowch nhw drosodd, gan sicrhau eu bod nhw i gyd yn troi'r un ffordd fel nad oes un â'i ben i lawr.**

**Torrwch ddarn hir o linyn, gwlân neu ruban a'i osod ar hyd cefn y darnau rydych wedi'u torri. Gosodwch yn ei le gyda thâp selo, gan sicrhau ei fod yn gorwedd ar hanner uchaf yr adar a'r gloÿnnod byw, fel eu bod nhw'n hongian yn daclus.**


**Mae eich baner adar a gloÿnnod byw yn barod i'w hongian!** Gallwch ei hongian ar wal, neu yn eich ffenestr i godi calon y rhai sy'n mynd heibio!







Argraffwch, gludwch i gerdyn tenau os oes rhaid, a thorrwch yn ofalus!


WNO







Argraffwch, gludwch i gerdyn tenau os oes rhaid, a thorrwch yn ofalus!













Argraffwch, gludwch i gerdyn tenau os oes rhaid, a thorrwch yn ofalus!









Argraffwch, gludwch i
gerdyn tenau os oes rhaid,
a thorrwch yn ofalus!